**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 15fed Rhagfyr 2004**
**Eitem: 2**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990
# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

COPIAU ATODIADAU AR GAEL GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 15fed Rhagfyr 2004**
**Eitem: 3**

# MATERION GORFODI

(i) **ENF/2004/00012 -**
**Rhan o gae Rhifau AO 5000 a 6300 ym Mhen y Bryn, Glascoed Road, Llanelwy**
Adeiladu ty annedd

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD – 15 RHAGFYR 2004**
**EITEM RHIF 3**

# ADRODDIAD GORFODI CYNLLUNIO

**CYFEIRNOD:** ENF/2004/00012

**LLEOLIAD:** Rhan o Gaeau OS Rhif 5000 a 6300 yn Pen-Y-Bryn, Ffordd Glascoed, Llanelwy

**TROSEDD:** Codi ty annedd

**CYFYNGIADAU:** Dim

## POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL SIR DDINBYCH
Polisi GEN 6 - Gofynion Rheoli Datblygu
Polisi GEN 3 - Datblygu y Tu Allan i Ffiniau Datblygu
Polisi GEN 4 - Datblygu Gwasgaredig y Tu Allan i Ffiniau Datblygu
Polisi HSG 5 - Grwpiau o Dai yng Nghefn Gwlad Agored
Polisi HSG 6 - Anheddau Newydd yng Nghefn Gwlad Agored

CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL
Nodyn 9 – Anheddau Gweithwyr Amaethyddol a Choedwigaeth

CANLLAWIAU'R LLYWODRAETH
Polisi Cynllunio Cymru Mawrth 2002
Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 6 – Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.
Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 9 – Gorfodi Rheolaeth Gynllunio

YSTYRIAETHAU HAWLIAU DYNOL
Cymerir darpariaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i ystyriaeth wrth ystyried cymryd camau yn erbyn datblygu tir yn ddiawdurdod a materion cysylltiedig eraill. Yn yr achos hwn, mae'r materion dan ystyriaeth yn ymwneud â hawliau unigolyn i godi annedd ar dir dan ei reolaeth. Mae angen pwyso'r hawliau hyn yn erbyn y polisïau cynllunio perthnasol sy'n ceisio cyfyngu datblygu tai y tu allan i ffiniau datblygu oni bai bod yr annedd yn hanfodol er mwyn lletya gweithiwr amaethyddol neu weithiwr coedwigaeth.

Ni chodwyd unrhyw faterion hawliau dynol penodol gan berchennog/ddeiliad yr annedd neu gan unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y mater hwn.

## 1. GWYBODAETH GEFNDIR

1.1 Rhoddwyd adroddiad ar yr achos hwn i'r Pwyllgor Cynllunio yn y lle cyntaf ar 27 Hydref 2004 ynghyd â chais cynllunio ôl-weithredol cyfeirnod: 46/2004/0678. Gohiriwyd y ddau fater i ganiatáu cyfle i asesu gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Asiantiaid yr ymgeisydd. Yna adroddwyd yn ôl ar yr achos hwn a'r cais cynllunio ôl-weithredol i'r Pwyllgor Cynllunio ar y 24 Tachwedd 2004, ble gohiriodd yr Aelodau roi ystyriaeth i'r ddau adroddiad gogyfer ag ymweliad safle i ystyried effaith yr adeilad, ei ddefnydd fel annedd am gyfnod dros dro ac elfennau cyflogaeth y cynllun. Mae manylion yr ymweliad safle gan yr Aelodau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cais cynllunio cyfatebol ar yr Agenda yma. Adroddir yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio ar yr achos hwn yn awr.

1.2 Mae'r safle hwn wedi'i leoli ar ochr ogleddol Ffordd Glascoed ac mae y tu allan i derfynau anheddiad diffiniedig Llanelwy. Mae gan y safle ganiatâd cynllunio fel melin lifio/gwaith coed er mis Awst 1998.

1.3 Daeth y trosedd hwn i sylw swyddogion yn gynnar yn 2003 pan sylwyd bod adeilad pren yn cael ei godi y tu blaen i'r safle sy'n wynebu Ffordd Glascoed. Datgelodd ymweliad â'r safle fod yr adeilad pren yn annedd. Cyflwynwyd Hysbysiad Tramgwyddo Cynllunio i breswylydd yr annedd, a gadarnhaodd ei fod yn byw yn yr annedd gyda'i wraig a'i blant. Preswylydd yr annedd sydd hefyd yn rhedeg y felin lifio/gwaith coed ar y safle.

1.4 Hysbyswyd preswylydd yr annedd yn ffurfiol fod angen caniatâd cynllunio ar yr annedd a gan nad oedd dim caniatâd cynllunio wedi'i roi, fod yr annedd yn ddiawdurdod. Ar ben hynny, fe'i hysbyswyd hefyd na fyddai'r annedd ddiawdurdod yn debygol o dderbyn caniatâd cynllunio gan y byddai'n groes i bolisïau cynllunio perthnasol Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

1.5 Mae cais cynllunio ôl-weithredol (Cyf: 46/2004/0678) wedi'i gyflwyno i gadw'r annedd ddiawdurdod am gyfnod dros dro o 5 mlynedd. Rhoddir adroddiad ar y cais hwn yn rhywle arall ar yr Agenda yma ac argymhellir ei fod i'w wrthod. Petai'r Aelodau'n cytuno ag argymhelliad y Swyddog i wrthod caniatâd cynllunio, gofynnir bod awdurdodiad i'w roi i gymryd y camau gorfodi angenrheidiol a nodir isod.

## 2. RHESYMAU DROS GYMRYD CAMAU GORFODI

2.1 Mae'r datblygiad gweithredol diawdurdod wedi digwydd o fewn y 4 blynedd diwethaf.

2.2 Mae'r datblygiad diawdurdod wedi arwain at godi annedd yng nghefn gwlad agored. Nid yw'r annedd wedi'i chodi i letya gweithiwr amaethyddol neu weithiwr coedwigaeth ac nid yw'r annedd yn ddatblygiad mewnlenwi. Nid oes dim cyfiawnhad arbennig arall nag angen ymarferol hanfodol i godi'r annedd yn y lleoliad yma yng nghefn gwlad agored. Mae'r datblygiad felly yn groes i Bolisïau GEN 3, HSG 5 a HSG 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych, Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol 9 – Anheddau Gweithwyr Amaethyddol a Choedwigaeth, Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002) a Nodyn Cyngor Technegol 6 – Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

2.3 Mae'r datblygiad yn annerbyniol mewn egwyddor ac ni fyddai gosod amodau cynllunio fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer yr annedd ddiawdurdod yn goresgyn hyn.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod awdurdodiad i'w ganiatáu ar gyfer y canlynol:

(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau bod yr annedd ddiawdurdod yn cael ei dymchwel a'i gwaredu ac i sicrhau unrhyw waith arall sydd ei angen i gywiro'r tor-rheol.

(ii) Cychwyn achos erlyn, neu gamau priodol eraill dan ddarpariaethau'r Deddfau Cynllunio, yn erbyn unrhyw berson, neu bersonau, y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi, neu Rybudd arall iddynt, neu y cymerir camau cyfreithiol yn eu herbyn petaent yn methu â chydymffurfio â gofynion y Rhybudd Gorfodi.

# AWDURDODIADAU PWYLLGOR GORFODI
# ADRODDIAD AROLWG ACHOSION
# Rhagfyr 2004

**Rhoddwyd adroddiadau ar yr achosion hyn i'r Pwyllgor o'r blaen, ond maent yn aros heb eu datrys. Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad chwarterol byr i'r Aelodau. Gwell codi unrhyw faterion manwl gyda'r Swyddogion cyn neu ar ôl y Pwyllgor.**

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLL'R | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/292/97/S<br>P7/521 | Voel Las,<br>Eryrys | 26/11/97 | Newid diawdurdod i lefelau tir a gwaith diawdurdod arall. | Cyflwynwyd Rhybudd, ni chyflwynwyd apêl. Dyddiad cydymffurfio: 09/04/99. Cydymffurfiwyd â'r rhybudd. Gwaith tirlunio caled a meddal ar fynd mewn cysylltiad â chais cyf: 15/76/99PF.<br>Cais cynllunio ôl-weithredol 15/2004/345/PF wedi'i ganiatáu. | Monitro'r tirlunio a'r cydymffurfio â'r amodau tirlunio. |
| ENF/037/95/N<br>P13/11 | Rhydorddwy Goch, Ffordd Dyserth, Y Rhyl | 28/10/98<br>24/03/04 | 31 ffenestr diawdurdod mewn adeilad rhestredig. | Cyflwynwyd Rhybudd, gwrthodwyd apêl. Dyddiad cydymffurfio: 19/10/00, felly'n torri'r rhybudd yn awr.<br><br>4 ffenestr wedi'u newid ac fe'u hystyrir yn dderbyniol.<br><br>27 ffenestr wedi'u cadw ond wedi'u paentio'n wyn yn awr. Yn dal yn torri'r rhybudd.<br>Cyflwynwyd cais i gadw'r ffenestri fel y'u paentiwyd (44/2003/1101/LB) gwrthodwyd yn ôl yr argymhelliad. | Mae Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GCGC) wedi ysgrifennu at y perchennog a chytunwyd ar atodlen waith gogyfer â chydymffurfio â'r Rhybudd.<br><br>GCGC wedi ysgrifennu i atgoffa'r perchennog ym mis Hydref 2004 a chadarnhaodd y Perchennog (ar lafar) ei fod ar y trywydd iawn i gydymffurfio â'r atodlen. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLL'R | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/006/97/S<br>P13/8 | Coetsiws a Stablau Lleweni,<br>Parc Lleweni,<br>Dinbych | 27/10/99 | Esgeuluso adeilad rhestredig | Dim datblygu diawdurdod, dim ond achos o esgeuluso'r adeilad rhestredig Gradd II* hwn. Perchennog wedi marw.<br>Safle'n cael ei werthu. | Yn cysylltu â Swyddogion Cadwraeth ynghylch pa gamau sydd fwyaf priodol i'w cymryd a pha un a all gorfodi cynllunio fod o gymorth wrth ddatrys y mater. Yn aros cadarnhad fod y safle wedi'i werthu. Sefyllfa i'w monitro. |
| ENF/001/99/N<br>P13/5 | Elwy Bank,<br>Stryd Fawr,<br>Llanelwy | 09/05/00 | Esgeuluso adeilad rhestredig | Dim datblygu diawdurdod, dim ond achos o esgeuluso adeilad rhestredig. Mae'r perchennog wedi cwblhau gwaith dros dro i wella sadrwydd yr adeiladwaith yn unol â Rheoliadau Adeiladu.<br><br>Sgaffaldiau wedi'u tynnu yn awr. Perchennog eisiau cadw'r murluniau.<br><br>Cyfarfod safle gyda'r perchennog ym mis Tachwedd 2004 i drafod gwelliannau tymor byr pellach i olwg yr adeilad. Gwnaed y rhain bellach drwy gau'r holl agoriadau sydd mewn bod ac ar ôl â choed a phaentio'r estyllod newydd a'r rhai sydd mewn bod yn ddu. | GCGC yn trafod cynigion gyda'r perchennog i addasu/ddatblygu'r safle.<br><br>Yn aros am gais cynllunio a chais am ganiatâd adeilad rhestredig. |
| ENF/127/00/S<br>P13/13 | 7 Railway Terrace,<br>Rhuthun | 28/06/00 | Ffenestri a drws uPVC mewn Adeilad Rhestredig. | Cyflwynwyd Rhybudd, ni chyflwynwyd apêl. Dyddiad cydymffurfio: 27/04/02.<br>Perchennog yn torri'r Rhybudd.<br><br>Gwrthodwyd ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig i gadw'r drws a'r ffenestri uPVC ym mis Mehefin 2004. Gall y perchennog apelio. | Cydymffurfiwyd â Rhybudd Gorfodi Adeilad Rhestredig.<br><br>DCP |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLL’R | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ailgyflwynwyd Rhybudd ar y 6/08/04. Newidwyd y ffenestri a chydymffurfiwyd â’r Rhybudd yn rhannol. Dyddiad cydymffurfio i newid y drws 6/12/04. | |
| ENF/434/99/N<br>LB1 – P7/552<br>LB2 – P7/553<br>LB3 – P7/555<br>LB4 – P7/554 | 4 Cilfan ar yr A55 yn Rhuallt | 28/03/01 | Lleoli a masnachu unedau arlwyo symudol ar Dir y Goron | Cyflwynwyd 4 Rhybudd, gwrthodwyd apeliadau. Dyddiad cydymffurfio: 02/05/03<br>Mae WAG wedi codi arwyddion ym mhob un o’r 4 cilfan yn dweud "dim masnachu" a chodwyd ffensys hefyd yn 2 o’r cilfannau. Pob un uned barhaol wedi’u symud oddi yno bellach.<br>1 gilfan yn dal i gael ei defnyddio’n rheolaidd yn ystod y dydd gan uned symudol gyrru yno/gyrru ymaith a darn o wellt glas yn gyfagos i’r gilfan yn cael ei ddefnyddio i leoli byrddau a chadeiriau mewn cysylltiad â’r defnydd hwn. Ffensys heb eu gosod gan Briffyrdd i atal defnyddio’r darn glaswelltog. Symudwyd portaloo oddi yno ar 11 Gorffennaf 2004. | Rhoddwyd adroddiad i’r Aelodau yn y Pwyllgor Cynllunio yn Rhagfyr 2003 fel achos DCP.<br><br>Bydd GCGC yn parhau i fonitro. |
| ENF/133/00/S<br>P7/560 | Llyn Cyfynwy, Lake Hill Farm, Llandegla | 25/07/01 | Carafan dwy uned breswyl | Cyflwynwyd Rhybudd, ni chyflwynwyd apêl. Dyddiad cydymffurfio: 31/10/02. Carafan heb ei symud oddi yno fel y mynnir gan y rhybudd Gorfodi ac mae honiadau fod y perchennog wedi dychwelyd i fyw yn y garafan. Felly yn torri’r Rhybudd. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i gadw’r garafan i’w defnyddio fel swyddfa am gyfnod o 18 mis. Rhoddwyd caniatâd cynllunio hefyd ar gyfer adeilad swyddfa | Ataliwyd yr erlyniad am dorri’r Rhybudd o ystyried y caniatâd cynllunio diweddar.<br><br>GCGC i fonitro’r safle. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLL'R | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | parhaol. | |
| ENF/2001/004<br>P7/564 | 208 Stryd Fawr, Prestatyn | 25/07/01 | Gosod caeadau roler mewn Ardal Gadwraeth | Cyflwynwyd Rhybudd, ystyriwyd yr apêl yn annilys. Dyddiad cydymffurfio: 21/02/02.<br><br>Yn awr yn torri'r Rhybudd. Wedi bod i'r Llys. Plediwyd yn ddieuog gan ddyfynnu Hawliau Dynol. Cynhaliwyd prawf ar 13/02/04.<br><br>Cafwyd y diffynnydd yn ddieuog ar sail pwynt technegol yn ymwneud â chyflwyno'r rhybudd. | Rhybudd Gorfodi i'w ailgyflwyno ddiwedd Tachwedd 2004. |
| ENF/2003/0016<br>P7/601 | | 23/04/03 | Codwr stondin diawdurdod ar du blaen y siop mewn Ardal Gadwraeth | Cyflwynwyd Rhybudd. Ni chyflwynwyd apêl, yn torri'r rhybudd yn awr. | Rhybudd Gorfodi i'w ailgyflwyno ddiwedd Tachwedd 2004. |
| ENF/2003/0015<br>P2/43 | | 23/04/03 | Arwydd wynebfwrdd goleuedig mewn Ardal Gadwraeth | Arwydd dal yn ei le. Cynhaliwyd prawf ar 13/02/04 ynghyd â'r caeadau roler.<br><br>Cafwyd y diffynnydd yn euog a'i ddirwyo £500 a £300 o gostau. | GCGC i gysylltu â'r GC ynghylch camau pellach. |
| ENF/2001/005<br>P7/565 | 'Patina', 204 Stryd Fawr, Prestatyn | 25/07/01 | Gosod caead roler mewn Ardal Gadwraeth | Cynhaliwyd prawf ar 13/02/04 a chafwyd y diffynnydd yn ddieuog ar sail pwynt technegol yn ymwneud â chyflwyno'r rhybudd. | Rhybudd Gorfodi i'w ailgyflwyno ddiwedd Tachwedd 2004. |
| ENF/2002/007<br>P7/568 | Ty Isoe, Maes Maelor, Llandegla | 30/01/02 | Storio cerbydau a defnydd preswyl | Cyflwynwyd Rhybudd, gwrthodwyd apêl.<br>Dyddiad cydymffurfio: 01/04/04<br><br>Perchennog yn torri'r Rhybudd.<br><br>Mae GCGC a'r GC wedi cael amrywiol gyfarfodydd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a chytunwyd camau ar y cyd mewn egwyddor. | Yn aros manylion/adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar archwiliad llawn o'r safle. Parhau i gysylltu ynghylch camau ar y cyd. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLL'R | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 12 Hydref 2004 gwnaed archwiliad safle gan GCGC a Swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd. Y tor-rhybudd yr un fath ac o fewn maes y Rhybudd. | |
| ENF/2002/005<br>P7/573 | Bryn Eglur,<br>Llanrhaeadr | 27/02/02 | Estyniad i annedd | Cyflwynwyd Rhybudd, tynnwyd apêl yn ôl. Dyddiad cydymffurfio: 02/12/03<br>Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddiweddarach, sy'n cynrychioli sefyllfa o gyfaddawd.<br><br>Manylion wedi'u cyflwyno yn awr a'u cytuno mewn perthynas ag amodau'n ymwneud â gorffeniadau allanol. | GCGC yn monitro'r datblygiad. |
| ENF/2002/025<br>P7/580 | 115 Ffordd y Glannau,<br>Y Rhyl | 26/06/02 | Defnydd cymysg, preswyl a gwerthiannau ceir | Gwrthodwyd cais ôl-weithredol a chyflwynwyd rhybudd.<br>Gwrthodwyd apêl ddiweddarach.<br>Dyddiad cydymffurfio wedi'i ymestyn tan 29/12/03.<br><br>Perchennog yn torri'r rhybudd.<br><br>2 ymddangosiad Llys wedi'u gohirio. Prawf wedi'i drefnu'n awr ar gyfer 22 Chwefror 2004.<br>Diffynnydd yn pledio'n ddieuog.<br><br>Yr eiddo ar y farchnad yn awr. (Gwerthwyd) | GCGC yn mynd ar drywydd erlyniad. |
| ENF/2002/021<br>P7/351 | Cornel Bach,<br>Ffordd Isaf<br>Dinbych,<br>Llanelwy | 04/09/02 | Lleoli cartref symudol a chreu cwrtil | Gwrthodwyd cais ôl-weithredol a chyflwynwyd rhybudd.<br>Caniatawyd apêl ddiweddarach am gyfnod dros dro tra oedd rhieni sy'n wael yn byw yno.<br>Amod yn gofyn am blannu i helpu i sgrinio'r garafan. | GCGC i fonitro a sicrhau y symudir y garafan oddi yno unwaith y bydd y rhieni gwael yn ymadael oddi yno.<br><br>Cynllun plannu wedi'i weithredu yn awr. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLL'R | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| ENF/2002/033 P7/588 | Chester House, 32 Stryd Sussex, Y Rhyl (Chaplins) | 04/09/02 | Gosod arwydd wynebfwrdd mewn Ardal Gadwraeth | Arwydd mewn Ardal Gadwraeth yn cael ei arddangos gyda chaniatâd tybiedig ond fe'i hystyrir yn annerbyniol, nid yn lleiaf am ei fod wedi amgáu dodrefn priffordd. Swyddog Prosiect THI a Swyddogion Cynllunio yn trafod gyda'r perchenogion i annog gwelliannau i'r arwydd a'r eiddo. | Trafodaethau'n parhau a Swyddog Cydymffurfiad (THI – Y Rhyl) mewn swydd yn awr i gyd-drefnu unrhyw gamau. Mater wedi'i atal ar hyn o bryd. |
| ENF/2002/017 P24/194 | 153 Stryd Fawr, Prestatyn | 04/09/02 | Blaen siop uPVC mewn Ardal Gadwraeth | Cyflwynwyd Rhybudd. Dyddiad cydymffurfio: 21/01/04. Perchennog yn torri'r Rhybudd. Cyflwynwyd cais cynllunio (43/2004/972/PF0 ar gyfer blaen siop newydd. | Yn aros i fanylion ychwanegol gael eu cyflwyno i benderfynu'r cais cynllunio. |
| 15/877/98/MA P47/3 | Chwarel Maes y Droell, Graianrhyd | 30/10/02 | Cais ROMP heb ei benderfynu – cloddio'n parhau | GC wedi ysgrifennu at gynrychiolydd cyfreithiol perchenogion y chwarel ar sail cyngor a dderbyniwyd oddi wrth Gwnsler a phenderfyniad Pwyllgor. | Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ysgrifennu at weithredwyr pob chwarel ble mae ceisiadau arolwg heb eu penderfynu yn aros cyflwyno manylion asesu effaith amgylcheddol. Yn aros am fwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. |
| ENF/2002/043 P7/592<br><br>ENF/2003/031 P7/592 | Hen Dir Rheilffordd, Ty Draw, Bodfari | 18/12/02<br><br>23/07/03 | Storio cerbydau trên a pharaffernalia cysylltiedig<br><br>Ffens derfyn a giatiau dros 2m o uchder | Cyflwynwyd Rhybudd a gwrandawyd apêl drwy gyfrwng Ymchwiliad Cyhoeddus. Gwrthodwyd yr apêl. Defnydd storio i beidio a'r holl eitemau i'w symud oddi yno erbyn y dyddiad cydymffurfio: 03/04/04.<br><br>Cyflwynwyd Rhybudd yn mynnu y tynnir y ffens i lawr mewn 3 mis. Dyddiad cydymffurfio : 26/03/04. Perchennog yn torri'r ddau Rybudd ac wedi'i hysbysu o erlyniad posibl. Mae clirio'r safle ar fynd yn awr | GCGC yn monitro'r sefyllfa. Erlyniad wedi'i atal gan fod y perchennog wrthi'n clirio'r safle ac yn cydymffurfio â gofynion y Rhybudd.<br><br>Erlyniad wedi'i atal. (gweler uchod) |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLL'R | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ac mae'r perchennog yn darparu diweddariadau rheolaidd. | |
| ENF/2003/009 | Pysgodfa Casgan, Llandegla | 23/07/03 | Defnydd preswyl o garafan a lleoli cerbydau | Awdurdodwyd camau gorfodi i sicrhau y rhoddir terfyn ar y defnydd ac y symudir y cerbydau. Cyflwynwyd Rhybudd 30 Mehefin 2004 ac mae wedi dod i rym. Ni chyflwynwyd apêl. Dyddiad cydymffurfio 19/02/05. | GCGC i fonitro'r dyddiad cydymffurfio. |
| ENF/2003/028 | Tir yn gyfagos i Uned 10, Parc Busnes HTM, Ffordd Abergele, Rhuddlan | 03/09/03 | Lleoli Carafan Statig at Ddibenion Preswyl | Awdurdodwyd camau gorfodi i sicrhau y rhoddir terfyn ar y defnydd preswyl ac y symudir y garafan oddi yno. Cyflwynwyd Rhybudd, rhoddwyd 18 mis i gydymffurfio. Cyflwynwyd apêl drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. Gwrthodwyd yr apêl Mehefin 2004 a chadarnhawyd y Rhybudd. Dyddiad cydymffurfio 3 Rhagfyr 2005. | GCGC yn monitro'r dyddiad ar gyfer cydymffurfio. |
| ENF/2003/038 | 60 Ffordd Gronant, Prestatyn | 01/10/03 | Datblygiad heb fod yn unol â'r hyn a ganiatawyd dan ganiatâd cynllunio Rhif Côd 43/2001/1194/PF | Awdurdodwyd camau gorfodi i sicrhau newidiadau i'r dormer i gyd-fynd â'r cynlluniau a gymeradwywyd. Cyflwynwyd Rhybudd 6 mis ar gyfer dyddiad cydymffurfio : 22/06/04.<br>Perchennog yn torri'r Rhybudd. Caniatawyd y cais cynllunio gan Bwyllgor Cynllunio Mehefin 2004 ar gyfer cynllun arall yn dilyn trafodaethau cyn gwneud cais gyda Swyddogion. | GCGC i fonitro gweithrediad y cynllun arall.<br><br>Erlyniad wedi'i atal. |
| ENF/2003/039 | Tan y Graig, Nantglyn | 26/11/03 | Storio ceir | Awdurdodwyd camau gorfodi i gael symud y cerbydau oddi yno. Rhybudd i'w ddrafftio.<br><br>Rhybudd S330 wedi'i ddanfon â | Sefyllfa wedi gwella drwy glirio'r cerbydau. GCGC i barhau i fonitro. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLL'R | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | llaw 5 Ebrill 2004 i egluro manylion perchenogaeth. | |
| ENF/2003/040 | Penrhydgoch, Nantglyn | 26/11/03 | Storio ceir | Awdurdodwyd Camau Gorfodi i gael symud y cerbydau oddi yno. Rhybudd i'w ddrafftio.<br><br>Rhybudd S330 wedi'i ddanfon â llaw 5 Ebrill 2004 i egluro manylion perchenogaeth.<br><br>Mae ymweliad safle diweddar wedi datgelu fod y tor-rheol yn cael sylw. | GCGC i fonitro i ystyried yr angen i gyflwyno Rhybudd Gorfodi. |
| ENF/2003/041 | Coral Spring, Ffordd Rhuthun, Llandegla | 26/11/03 | Defnyddio tir i leoli carafan a storio ceir | Awdurdodwyd Camau Gorfodi i gael symud y cerbydau oddi yno. Cyfarwyddwyd y GC i ddrafftio Rhybudd. | Rhybudd Gorfodi i'w gyflwyno cyn diwedd Rhagfyr 2004. |
| ENF/2003/0002 | Gwasg Gee, 12 -18 Lôn Swan, Dinbych | 24/03/04 | Esgeuluso adeilad rhestredig. | Awdurdodwyd Camau Gorfodi i gyflwyno Rhybudd Atgyweiriadau.<br><br>Cyflwynwyd Rhybudd Atgyweiriadau i'r perchennog ar 30 Mehefin 2004. Dim ymateb neu weithredu penodol gan y perchennog i fynd i'r afael â gofynion y Rhybudd. | GCGC i barhau i gysylltu â'r GC a'r Rheolwr Prosiect (THI). |
| ENF/2003/00042 | Parc Bach Derwen, Corwen | 24/03/04 | Addasu adeiladau amaethyddol at ddefnydd preswyl. | Awdurdodwyd Camau Gorfodi i roi terfyn ar y defnydd preswyl ac ar gyfer gwaith dymchwel.<br><br>Cyflwynwyd Rhybudd ar y 6 Awst 2004. Cyflwynwyd apêl. Sylwadau Ysgrifenedig. | GCGC i ddrafftio datganiad o'r achos. |
| ENF/2004/00033 | 5 Ochr y Foel, Eryrys | 21/04/04 | Codi ffens | Gwrthodwyd cais ôl-weithredol 15/2004/166/PF ac awdurdodwyd camau gorfodi i dynnu'r ffens/ei | GCGC i fonitro dyddiad cydymffurfio'r Rhybudd. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLL'R | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ostwng i 1 metr. Daliwyd cyflwyno Rhybudd yn ôl ar gais yr Aelodau er mwyn cyd-drafod ateb. Cyfarfod safle gyda'r perchennog a ddywedodd y byddai'n apelio'n erbyn gwrthodiad. Ni chyflwynwyd apêl. Cais cynllunio ôl-weithredol arall. Cyflwynwyd Rhybudd Gorfodi 16 Tachwedd 2004. Yn dal o fewn y cyfnod apelio. | |
| ENF/2004/00034 | 2 Tan y Maes, Galltmelyd, Prestatyn | 21/04/04 | Codi ffens dros 1 metr o uchder yn gyfagos i'r ffordd | Awdurdodwyd camau gorfodi i dynnu'r ffens/gostwng y ffens i 1 metr. Daliwyd cyflwyno Rhybudd yn ôl ar gais yr Aelodau er mwyn cyd-drafod ateb. Cyfarfod safle gyda'r perchennog sydd wedi cytuno i ostwng y ffens. Rhan fwyaf o'r ffens wedi'i gostwng a'r ffens ochr i'w gostwng ymhellach. | Tynnwyd y ffens ar y tu blaen a gostyngwyd y ffens ar yr ochr.<br><br>DCP |
| ENF/2004/00035 | Clinig Stryd y Ffynnon, Rhuthun | 21/04/04 | Arddangos arwydd hysbysebu wedi'i oleuo'n allanol | Gwrthodwyd cais ôl-weithredol 02/2004/0086/AD ac awdurdodwyd erlyniad i gael tynnu'r dull goleuo.<br>Mae'r perchennog i gyflwyno cais arall ac mae GCGC (Hydref 2004) wedi rhoi cyngor ffurfiol ar ddull addas o oleuo. | Erlyniad i'w atal.<br><br>Yn aros cais pellach. |
| ENF/2004/00058 | 4 Aspen Walk, Y Rhyl | 21/04/04 | Gosod 2 ddysgl loeren, y mae un ohonynt yn 1m ar ei thraws, y tu blaen i'r annedd | Awdurdodwyd camau gorfodi i dynnu'r ddysgl fwyaf. | Mae GCGC wedi cyfarwyddo'r GC i ddrafftio Rhybudd ac mae'r Rhybudd i'w gyflwyno Rhagfyr 2004. |
| ENF/302/00/N | 37 – 39 Ffordd Pendyffryn, Y Rhyl | 21/04/04 | Esgeuluso adeilad rhestredig | Awdurdodiad i gyflwyno Rhybudd Atgyweiriadau.<br>Eiddo wedi'i farchnata a'i werthu yng Ngorffennaf 2004 i ddatblygwr eiddo. | GCGC i fonitro'r sefyllfa. Yn aros i gais cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig gael eu cyflwyno. Atal unrhyw gamau. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLL'R | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Yn aros am gais cynllunio a chais am ganiatâd adeilad rhestredig. | |
| ENF/2004/00039 | Pen y Mynydd Bach, Rhuallt | 19/05/04 | Codi seilo grawn. | Gwrthodwyd cais cynllunio ôl-weithredol a rhoddwyd awdurdodiad i gymryd camau gorfodi i dynnu'r seilo grawn. Ni chyflwynwyd apêl yn erbyn gwrthodiad cynllunio. | GCGC wedi cyfarwyddo'r GC i Ddrafftio Rhybudd a'r Rhybudd i'w gyflwyno Tachwedd 2004. |
| ENF/2004/00048 | Gweithdy y tu ôl i 3 Stryd Gamlin, Y Rhyl. | 01/09/04 | Newid defnydd o weithdy yn un annedd a gwaith cysylltiedig. | Rhoddwyd awdurdodiad i gyflwyno Rhybudd Gorfodi i roi'r gorau i'r gwaith, i roi'r gorau i'r defnydd preswyl ac i wneud unrhyw waith sydd ei angen i roi'r gorau i'r defnydd. | GCGC i gyfarwyddo'r GC i ddrafftio Rhybudd Gorfodi. Cynhaliwyd cyfarfod safle i archwilio tu mewn yr adeilad a'r GCGC yn aros am fwy o wybodaeth gan y perchennog. |
| ENF/2004/00052 | The Best, 16 Stryd Fawr, Prestatyn | 27/10/04 | Arwydd wedi'i oleuo'n fewnol. | Rhoddwyd awdurdodiad i erlyn ond i'w atal am 2 fis i ganiatáu cyd-drafod gyda'r ymgeisydd. | GCGC wedi ysgrifennu at yr ymgeisydd. Erlyniad wedi'i atal. |
| ENF/2004/00053 | Ruthin Kebab and Burger House, 54 Stryd y Ffynnon, Rhuthun | 27/10/04 | Cyflwyno gorchudd teils seramig ar du blaen y siop. | Awdurdodiad i gyflwyno rhybudd gorfodi. | GCGC wedi cyfarwyddo'r GC i ddrafftio Rhybudd. |

GCGC – Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

GC – Gwasanaethau Cyfreithiol

GD – Gwasanaethau Datblygu

YS – Ymweliad Safle

DCP – Dim Camau Pellach

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**15fed Rhagfyr 2004**
**EITEM AGENDA RHIF 5**

**ADRODDIAD GAN BENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

**DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Hysbysu'r Aelodau o ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliadau Safle y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgor Cynllunio.

## 2. DYDDIAD YR YMWELIADAU SAFLE

**2.1** Ar ôl ymgynghori ag Adran Clerc y Sir, penderfynwyd mai bore dydd Mawrth, **22ain Rhagfyr 2004** sydd fwyaf addas. Mae'r dyddiad hwn wedi'i neilltuo'n amodol.

**2.2** Fe'ch hysbysir, felly, y bydd unrhyw ymweliadau safle a drefnir heddiw yn cael eu cynnal ar **ddydd Mawrth, 22ain Rhagfyr 2004**

## 3. AELODAETH Y PANEL YMWELD Â SAFLEOEDD

**3.1** Bydd hyn yn unol â Chydbwysedd Gwleidyddol.
Aelodaeth y Panel Safle fydd:
Tri o gynrychiolwyr y Grwp Annibynnol (yn cynnwys y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd) ac un yr un o'r Grwpiau Llafur, Ceidwadol, Plaid Cymru, Cynghrair Ddemocrataidd a Democratiaid Rhyddfrydol.
Bydd yr Aelod(au) Lleol ar gyfer pob safle yn cael ei/eu wahodd/ gwahodd i fod yn bresennol hefyd.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1 Bod yr Aelodau'n cytuno bod yr Ymweliadau Safle yn cael eu cynnal ar ddydd Mawrth 22ain Rhagfyr 2004.**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**15fed Rhagfyr 2004**
**EITEM: 6**

# Penderfyniadau wedi eu gwneud gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod a Gwarchod y Cyhoedd o dan Pwerau Dirprwyedig - 1 - 20 Tachwedd 2004

## Eitem er gwybodaeth

**Mae hon yn rhestr o geisiadau lle gwnaed y penderfyniad eisoes dan bwerau dirprwyedig. Os ydych chi'n dymuno trafod y cais/penderfyniad, cysylltwch â'r Swyddog fu'n ymwneud â'r cais os gwelwch yn dda.**

## MATHAU O BENDERFYNIAD

| | |
|---|---|
| **CANIATÁU (GRANT)** | **- caniatáu caniatâd cynllunio** |
| **GWRTHOD (REFUSE)** | **- gwrthod pob math o gais** |
| **CYMERADWYO (APPROVE)** | **- cymeradwyo materion neu amod a neilltuwyd** |
| **CANIATÂD (CONSENT) -** | **caniatáu caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu ganiatâd hysbyseb** |
| **BARNU (DEEMED)** | **- nid yw'n ofynnol cael caniatâd hysbyseb** |
| **DIM GWRTHWYNEBIAD (NO OBJ)** | **- dim gwrthwynebiad i waith ar goeden/coed mewn ardal gadwraeth** |
| **NID YW'N OFYNNOL (NOT REQ)** | **- nid yw'n ofynnol cael caniatâd ar gyfer y gwaith arfaethedig** |
| **PENDERFYNWYD (DETERMIN)** | **- penderfynwyd nad yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth o flaen llaw neu'n cael ei ganiatáu pan benderfynir ar y cais (rhai gweithiau telecom a gwaith amaethyddol penodol)** |
| **DATBLYGIAD A GANIATEIR (P DEV)** | **- canfuwyd fod y cais yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl derbyn y cais** |
| **TYNNWYD YN ÔL (WDN)** | **- tynnwyd y cais yn ôl gan yr ymgeisydd** |
| **ANNILYS (INVALID)** | **- canfuwyd fod y cais yn annilys** |
| **ARDYSTIO (CERTIFY)** | **- cyflwynwyd tystysgrif defnydd cyfreithlon** |
| **G ARDYSTIO (RCERTIFY)** | **- gwrthodwyd cyflwyno tystysgrif defnydd cyfreithiol** |

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**

COPIAU ATODIADAU AR GAEL GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD